General Pharmaceutical Council

Cyngor Fferyllol Cyffredinol

# Welsh language scheme/Cynllun Iaith Gymraeg

Prepared under the Welsh Language Act 1993/ Wedi ei baratoi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

## Policy details

| | |
|---|---|
| **Policy reference** | GP/2011/24 |
| **Version** | 1.1 |
| **Policy author** | Hugh Simpson, Director of Policy and Communications |
| **Approved for issue by** | Duncan Rudkin, Chief Executive and Registrar, 24 August 2011 |
| **Effective from** | 24 August 2011 |
| **Next review** | 24 August 2021 |

## Version control tracker

| Version | Approved date | Description of change | Amendments by |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 24 August 2011 | Original | None |
| 1.1 | 14 May 2019 | Details for further information updated from Hugh Simpson to Darren Hughes. Current chair updated from Bob Nicolls to Nigel Clarke. Current address and employ count updated. | Ashleigh Farrier, Communications Coordinator |

# Contents

Welsh Language Scheme ........ 4
The Principle of Equality ........ 5
1. About us ........ 6
1. Amdanom ni ........ 7
2. Service planning and delivery ........ 8
2. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau ........ 9
3. Communicating with the Welsh speaking public ........ 10
3. Cyfathrebu gyda'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith ........ 11
4. The organisations public face ........ 14
4. Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad ........ 15
5. Implementing and monitoring the scheme ........ 17
5. Gweithredu a Monitro'r Cynllun ........ 18
6. Publicising of the scheme ........ 21
6. Hysbysebu'r Cynllun ........ 22
Implementation plan ........ 23
Cynllun Gweithredu ........ 25

# Welsh Language Scheme

## Introduction

The GPhC recognises the cultural and linguistic needs of the Welsh speaking public and we are committed to implementing the principle of equality at every opportunity and can see the full value in providing a service to patients and the public in their chosen language.

## Purpose of policy

The Welsh Language scheme has been agreed so that the GPhC can provide services to the Welsh speaking public.

## Application of policy

The Welsh Language Scheme applies to all public facing communications, channels, and products of the GPhC.

## Measurement and evaluation

The policy will be kept under continual review.

Further information about the Welsh Language Scheme can be obtained from Darren Hughes, Director for Wales, **darren.hughes@pharmacyregulation.org.**

Gellir cael mwy o wybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg y CFfC gan Darren Hughes, Cyfarwyddwr Cymru, **darren.hughes@pharmacyregulation.org.**

## The Principle of Equality

The Welsh Language Scheme of the General Pharmaceutical Council received approval of the Welsh Language Board on 16 September 2011.

The GPhC is committed to fulfilling its obligations under the Welsh Language Act 1993. The GPhC has adopted the principle that in the conduct of public business in Wales, it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality. This scheme sets out how the GPhC will give effect to that principle when providing services to the public in Wales.

## Egwyddor Cydraddoldeb

Derbyniodd Cynllun Iaith Yr Gymraeg y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Medi, 2011.

Mae'r CFfC yn ymrwymedig i gyflawni ei oblygiadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r CFfC wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr ieithoedd Saesneg a Chymraeg ar sail gydradd. Mae'r cynllun hwn yn egluro sut bydd y CFfC yn gweithredu'r egwyddor honno pan yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

# 1. About us

1.1 The General Pharmaceutical Council (GPhC) is the regulator for pharmacists, pharmacy technicians and registered pharmacy premises in England, Scotland and Wales.

1.2 The GPhC was created by a piece of legislation called the Pharmacy Order 2010. This sets out our role and gives the GPhC its legal powers.

1.3 We will protect and promote the health and safety of patients and the public by assuring the maintenance and development of safe and effective pharmacy practice in Great Britain. We will also contribute to the continued development of trust and confidence in pharmacy by patients and the public and other health professionals.

1.4 The GPhC

- sets standards for conduct, ethics, proficiency, education and training, and continuing professional development (CPD)
- maintains a register of pharmacists, pharmacy technicians and pharmacy premises monitors pharmacy professionals' fitness to practise
- responds to complaints fairly and proportionately
- approves qualifications for pharmacists and pharmacy technicians
- sets standards for pharmacy owners and superintendent pharmacists and inspect pharmacy premises.

1.5 Our register is available on the GPhC website, and contains an on-line search facility. This can be found at **www.pharmacyregulation.org**

1.6 The governing body of the GPhC, the Council, comprises 14 members. This body is made up of:

- 7 lay members, and
- 7 pharmacy professionals.

One member of the Council must live or work wholly or mainly in Wales.

1.7 All members of the Council were appointed by the Privy Council. The current Chair of the GPhC is Nigel Clarke

1.8 The GPhC is currently based at 25 Canada Square, Canary Wharf, London, E14 5LQ and employs over 220 employees. Approximately 40 employees are field based across Great Britain. The GPhC does not currently have an office in Wales, however it will follow the Act as the GPhC is a GB wide regulator.

# 1. Amdanom ni

1.1 Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r corff rheoleiddio ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllol wedi eu trwyddedu yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

1.2 Crëwyd y CFfC gan ddarn o ddeddfwriaeth a elwir yn Orchymyn Fferylliaeth 2010. Mae hwn yn egluro ein swyddogaeth ac yn rhoi pwerau cyfreithiol i'r CFfC.

1.3 Byddwn yn amddiffyn a hybu iechyd a diogelwch cleifion a'r cyhoedd drwy sicrhau y cedwir ac y datblygir fferylliaeth ddiogel ac effeithiol ym Mhrydain. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu yn barhaus ymddiriedaeth a hyder cleifion, y cyhoedd a gweithwyr iechyd eraill mewn fferylliaeth.

1.4 Mae'r CFfC yn

- gosod safonau ar gyfer ymddygiad, moeseg, hyfedredd, addysg a hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllol
- monitro addasrwydd gweithwyr i ymarfer
- ymateb i gwynion yn deg ac yn gymesur
- cymeradwyo cymwysterau fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- gosod safonau ar gyfer perchenogion fferyllfeydd a fferyllwyr arolygol ac yn arolygu safleoedd fferyllol.

1.5 Mae ein cofrestr ar gael ar wefan y CFfC, ac mae iddo declyn chwilio ar-lein. Ceir hyd i hyn ar **www.pharmacyregulation.org**

1.6 Mae gan gorff llywodraethu'r CFFC, y Cyngor, 14 o aelodau. Mae'r corff yn cynnwys:

- 7 aelod lleyg, a
- 7 cynrychiolydd fferyllol proffesiynol.

Rhaid i un aelod o'r Cyngor fyw neu weithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

1.7 Apwyntiwyd pob aelod o'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor. Cadeirydd presennol y CFfC yw Nigel Clarke.

1.8 Pencadlys presennol y CFfC yw 25 Canada Sqaure, Llundain, E14 5LQ ac mae'n cyflogi dros 220 o bobl. Mae tua 40 o bobl yn gweithio ar leoliad ar hyd a lled Prydain Fawr. Nid oes gan y CFfC ganolfan yng Nghymru ar hyn o bryd, ond bydd yn dilyn y Ddeddf gan fod y CFfC yn rheolydd ar draws Prydain gyfan.

## 2. Service planning and delivery

2.1 The GPhC recognises the cultural and linguistic needs of the Welsh speaking public and we are committed to implementing the principle of equality at every opportunity and can see the full value in providing a service to patients and the public in their chosen language.

### New policies and initiatives

2.2 The GPhC will ensure that new policies and initiatives promote and facilitate the use of Welsh. In order to do so we will:

- assess the linguistic effects of any new policy or initiative
- ensure they are consistent with this scheme, and do not undermine the scheme
- consult the Welsh Language Board in advance of any proposals that will affect the scheme, or will affect the schemes of other organisations
- not alter the scheme without the Board's agreement
- ensure that the measures detailed in the scheme are applied to new policies and initiatives when they are implemented
- ensure that staff involved in policy formulation are aware of the scheme and our responsibilities under the Act

### The standard of service in Welsh

2.3 The GPhC will:

- ensure service of equal quality provided in both languages
- set standards relating to the provision of services and dealing with the public in Wales monitor the standard of service and its implementation
- include details of the standards of service in relation to the Welsh Language Scheme in our Annual Report
- use approved professional translators who are members of the Association of Welsh Translators and Interpreters to ensure quality of service

# 2. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

2.1 Mae'r CFfC yn cydnabod anghenion diwylliannol ac ieithyddol y cyhoedd Cymraeg eu hiaith ac rydym yn ymrwymedig i weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle ac yn gallu llwyr weld gwerth darparu gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol i gleifion a'r cyhoedd.

## Polisïau a mentrau newydd

2.2 Bydd y CFfC yn sicrhau y bydd polisïau newydd yn hybu a hwyluso defnydd ar y Gymraeg. At y diben hwn byddwn yn:

- asesu effeithiau ieithyddol unrhyw bolisïau neu fentrau newydd
- sicrhau eu bod yn gyson â'r cynllun hwn, ac nad ydynt yn tanseilio'r cynllun
- ymgynghori gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn unrhyw gynigion a fydd yn newid y cynllun, neu yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill
- beidio â newid y cynllun heb gydsyniad y Bwrdd
- sicrhau bod y mesurau y manylir arnynt yn y cynllun yn cael eu hestyn i bolisïau a mentrau newydd pan fônt yn cael eu gweithredu
- sicrhau bod staff sydd ynghlwm wrth lunio polisi yn ymwybodol o'r cynllun ac o'n cyfrifoldebau o dan y Ddeddf

## Safon Gwasanaethau yn y Gymraeg

2.3 Bydd y CFfC yn:

- sicrhau gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith
- gosod safonau ynghylch darparu gwasanaethau a delio gyda'r cyhoedd yng Nghymru monitro safon a gweithrediad y gwasanaeth
- cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol fanylion am y safonau gwasanaeth mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg
- defnyddio cyfieithwyr proffesiynol wedi eu cymeradwyo ac sydd yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth

# 3. Communicating with the Welsh speaking public

3.1 In delivering its services in accordance with the contents of this scheme, the GPhC is committed to offering services to the public in the language of their choice.

3.2 The GPhC will:

- establish the language of choice at an early stage
- maintain a database of individuals and organisations who wish to deal with us through the medium of Welsh
- arrange for services to be provided direct or by interpretation in the language of choice
- ensure that staff all are aware of the Welsh Language Scheme and how communication in Welsh will be handled

## Written and Electronic Communication

3.3 The GPhC welcomes correspondence in both Welsh and English. This will be stated clearly on any communications intended for patients and the public in Wales and on our website by saying " The GPhC welcomes letters and emails in both Welsh and English. Where letters are received in Welsh we are committed to responding to them in Welsh."

3.4 The GPhC will:

- respond to correspondence received in Welsh within the same time period as correspondence in English
- ensure that letters received in Welsh receive a signed reply in Welsh
- automatically reply to correspondence received in English in English unless requested otherwise

## Telephone Communication

3.5 The GPhC has no Welsh speaking employees at present. As a result we are unable to communicate on the telephone in Welsh.

3.6 The GPhC will:

- offer the caller the option of continuing the call in English or of putting the query to us in writing and we will respond in Welsh
- monitor the demand for provision to ensure that the option of being able to receive and deal with calls in Welsh from the outset will be considered
- issue guidance to staff on dealing with communication in Welsh

# 3. Cyfathrebu gyda'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith

3.1 Wrth ddarparu gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn, mae'r CFfC yn ymrwymo i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu hiaith ddewisol.

3.2 Bydd y CFfC yn:

- sefydlu'r iaith ddewisol ar gyfnod cynnar
- cynnal bas data o unigolion a sefydliadau sydd am ddelio gyda ni drwy gyfrwng y Gymraeg
- trefnu bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n uniongyrchol, neu drwy gyfieithu, yn yr iaith ddewisol
- icrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o Gynllun yr Iaith Gymraeg a sut bydd cyfathrebu yn y Gymraeg yn cael ei wneud

## Cyfathrebu Ysgrifenedig ac Electronig

3.3 Mae'r CFfC yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei nodi'n glir mewn unrhyw gyfathrebiadau wedi eu hanelu at gleifion a'r cyhoedd yng Nghymru ac ar ein gwefan, drwy ddweud "Mae'r CFfC yn croesawu llythyrau ac e-byst yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fo llythyrau yn cael eu hanfon atom yn y Gymraeg, mae'n ymrwymiad gennym i'w hateb yn y Gymraeg."

3.4 Bydd y CFfC yn:

- ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn yr iaith Gymraeg o fewn yr un amser ag yr ymatebir i ohebiaeth yn Saesneg
- sicrhau bod llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb, wedi'u llofnodi, yn y Gymraeg;
- mateb yn Saesneg yn awtomatig i ohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg oni wneir cais am beidio â derbyn yr ateb yn Saesneg

## Cyfathrebu dros y Ffôn

3.5 Nid oes gan y CFfC staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. O ganlyniad nid ydym yn gallu cyfathrebu dros y ffôn yn y Gymraeg.

3.6 Bydd y CFfC yn:

- cynnig y gall y galwr barhau yn Saesneg neu ysgrifennu atom ni ac y byddwn yn ymateb yn y Gymraeg
- monitro, o'r cychwyn, y galw am ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gellir ystyried y posibilrwydd o dderbyn a delio gyda galwadau Cymraeg
- cyhoeddi canllawiau i staff ynghylch delio gyda chyfathrebiadau yn y Gymraeg

## Public Meetings

3.7 When the GPhC holds a meeting with public involvement in Wales we will ensure that we cater for those individuals who prefer to communicate in Welsh.

3.8 The GPhC will:

- issue notices of public meeting in Wales bilingually
- make clear that the public are welcome to speak English or Welsh. To facilitate this we will invite members of the public who wish to attend to notify the GPhC of their language of choice
- produce bilingual papers, agendas, exhibition and display materials for public meetings held in Wales

## Other dealings with the public

3.9 When the GPhC holds a Fitness to Practise hearing and Welsh speaking members of the public are called as witnesses we will ensure that we cater for those individuals who prefer to communicate in Welsh.

3.10 The GPhC will:

- make clear that the witness is welcome to speak English or Welsh. To facilitate this we will invite witnesses required to attend to notify the GPhC of their language of choice

## The Website

3.11 We will ensure that the GPhC website supports our commitment to the equality principle. Most publications aimed at pharmacy professionals will be available solely in English. However we will consider publishing them bilingually if requested.

3.12 The GPhC will:

- enable access to the relevant public areas of its website in English and Welsh
- publish information about how to raise concerns about the fitness to practise of pharmacy professionals and our organisation in Welsh
- ensure that all press releases aimed at the public in Wales are available bilingually

We are committed to increasing the bilingual provision and accessibility of our website and will continually revise and update content to this purpose. We will follow the Welsh Language Board's advice as outlined in *Bilingual Software Guidelines and Standards.*

## Cyfarfodydd Cyhoeddus

3.7 Pan fydd y CFfC yn cynnal cyfarfodydd yng Nghymru, y mae'r cyhoedd ynghlwm â nhw, byddwn yn sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion y rheiny sydd yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg.

3.8 Bydd y CFfC yn:

- cyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd yng Nghymru yn ddwyieithog
- ei gwneud hi'n glir bod croeso i'r cyhoedd siarad yn Saesneg neu yn y Gymraeg. I hwyluso hyn, byddwn yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd sydd am fynychu i hysbysu'r CFfC o'u dewis iaith
- cyhoeddi papurau, agendau, deunydd arddangos dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru

## Ymwneud â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

3.9 Pan fo'r CFfC yn cynnal achosion Addasrwydd i Ymarfer a siaradwyr Cymraeg yn cael eu galw i roi tystiolaeth byddwn yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y rheiny sydd yn well ganddynt gyfathrebu yn y Gymraeg.

3.10 Bydd y CFfC yn:

- Ei gwneud hi'n glir bod croeso i'r tyst siarad yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Er mwyn hwyluso hyn byddwn yn gofyn i dystion y bydd yn rhaid iddynt fynychu'r achos i nodi eu hiaith ddewisol

## Y Wefan

3.11 Byddwn yn sicrhau bod gwefan CFfC yn cefnogi ein hymrwymiad i'r egwyddor o gydraddoldeb. Bydd y rhan fwyaf o gyhoeddiadau a anelir at weithwyr fferyllol proffesiynol ar gael yn Saesneg yn unig. Byddwn yn ystyried eu cyhoeddi'n ddwyieithog, fodd bynnag, ar gais.

3.12 Bydd y CFfC yn:

- galluogi mynediad i ardaloedd cyhoeddus perthnasol o'r wefan yn Saesneg ac yn y Gymraeg
- cyhoeddi gwybodaeth am sut i leisio gofidiau ynghylch addasrwydd i ymarfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r sefydliad yn y Gymraeg
- sicrhau bod pob datganiad i'r wasg sydd wedi ei anelu at y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog

Rydym yn ymroddedig i gynyddu darpariaeth ddwyieithog a hygyrchedd ein gwefan a byddwn yn adolygu a diweddaru'r cynnwys yn gyson at y diben hwnnw. Byddwn yn dilyn cyngor Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel yr amlinellir ef yn eu Canllawiau Meddalwedd Ddwyieithog.

# 4. The organisations public face

4.1 We will adopt a bilingual corporate identity for use in Wales.

## Corporate Identity

4.2 We are developing a Welsh corporate identity which will be ready to use in Wales once our Welsh Language Scheme is formally approved.

4.3 The GPhC will use its Welsh corporate identity:

- on any responses and circulars sent to Wales
- on stationery, business cards and identification badges used in Wales

4.4 The name of the GPhC in Wales is Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Publications

4.5 The GPhC will produce single bilingual documents where possible. Where this is not possible we will issue separate language documents simultaneously, with details of how to obtain the other language version.

4.6 Material issued in Welsh will be that information targeted at the public in Wales and include appropriate corporate documents.

4.7 The GPhC will:

- ensure that if there is a cost attached to a publication, the English and Welsh copies or the bilingual copies of the publication will be the same price
- ensure that the price of a Welsh version of a document is not greater than the price of the English version
- publish standards, guidance and other technical or specialised material aimed at professionals and not directly at the public in English. However, we will offer a translation into Welsh on request
- provide staff, consultants, designers and publishers with written guidance for dealing with bilingual publications

## Press Releases

4.8 The GPhC will issue bilingual press releases and statements to the media in Wales.

4.9 The GPhC is committed to conducting advertising and publicity activities aimed at the public in Wales bilingually; in a way that treats English and Welsh on a basis of equality.

4.10 The GPhC will:

- conduct public surveys in Wales bilingually
- use bilingual exhibition and public information stands
- conduct GB wide advertising campaigns bilingually where this is aimed at the public in Wales

## Employee Recruitment Advertising

When recruiting employees where fluent Welsh is an essential requirement of the post, recruitment adverts will appear in Welsh. Where the requirement is desirable or where the post is based in Wales, recruitment adverts appearing in the press in Wales will be bilingual.

All adverts will be of the same size, format, legibility and prominence.

# 4. Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad

4.1 Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol Gymreig i'w defnyddio yng Nghymru.

## Hunaniaeth Gorfforaethol

4.2 Rydym yn datblygu hunaniaeth gorfforaethol Gymreig fydd yn barod i'w defnyddio yng Nghymru gynted ag y bydd ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

4.3 Bydd y CFfC yn defnyddio'i hunaniaeth gorfforaethol Gymreig:

- ar unrhyw ymatebion neu gylchlythyrau a anfonir i Gymru
- ar ddeunyddiau ysgrifennu, cardiau busnes a bathodynnau adnabod a ddefnyddir yng Nghymru

4.4 Enw'r sefydliad yng Nghymru yw y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC).

## Cyhoeddiadau

4.5 Bydd y CFfC yn cyhoeddi dogfennau sengl dwyieithog pan yn bosibl. Pan na fydd hyn yn bosibl byddwn yn cyhoeddi dogfen yn yr iaith Gymraeg ar wahân ar yr un pryd, gyda manylion am sut i gael y fersiwn yn yr iaith arall.

4.6 Y wybodaeth sy'n cael ei hanelu at y cyhoedd yng Nghymru fydd y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg, a bydd yn cynnwys dogfennau corfforaethol perthnasol.

4.7 Bydd y CFfC yn:

- sicrhau bod cost penodol i bob cyhoeddiad, a'r copïau Saesneg a'r copïau Cymraeg neu ddwyieithog yn gyfwerth.
- sicrhau nad yw pris fersiwn Gymraeg o ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
- cyhoeddi safonau, canllawiau, deunyddiau technegol neu arbenigol wedi eu hanelu at weithwyr y proffesiwn, yn hytrach na'r cyhoedd yn uniongyrchol, yn Saesneg. Byddwn yn cynnig cyfieithiad Cymraeg ar gais, fodd bynnag.
- rhoi canllawiau ysgrifenedig i staff, dylunwyr, ymgynghorwyr a chyhoeddwyr ar ddelio gyda chyhoeddiadau dwyieithog

## Datganiadau i'r Wasg

4.8 Bydd y CFfC yn cyhoeddi datganiadau dwyieithog i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru.

4.9 Mae'r CFfC wedi ymrwymo i gynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yn ddwyieithog, mewn ffordd sy'n ymdrin â'r Saesneg a'r Gymraeg ar sail gydradd.

4.10 Bydd y CFfC yn:

- cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog defnyddio stondinau gwybodaeth ac arddangos dwyieithog
- cynnal ymgyrchoedd hysbysebu sy'n digwydd ar hyd a lled Prydain yn ddwyieithog pan fônt wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru

## Hysbysebion Recriwtio Staff

Pan yn recriwtio gweithwyr i swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, bydd hysbysebion recriwtio yn ymddangos yn y Gymraeg. Pan fo'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu pan fo'r swydd wedi ei lleoli yng Nghymru, bydd hysbysebion recriwtio sy'n ymddangos yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd pob hysbyseb o'r un maint, fformat, amlygrwydd a byddant yr un mor hawdd i'w deall.

# 5. Implementing and monitoring the scheme

## Employees and their responsibility

5.1 Ultimate responsibility for the provision of services in Welsh rests with the Chief Executive and Registrar. The Director of Policy and Communications will oversee the day to day implementation of the Scheme.

5.2 The Head of Human Resources will ensure that those involved in recruitment and training are made aware of their obligations under the Scheme. Welsh Language Awareness training will be included as part of staff induction training for public facing staff.

5.3 All managers will ensure that the Scheme is implemented in their relevant departments. This will be supported with staff guidance written in accordance with this scheme.

## Learning Welsh

5.4 The GPhC will encourage and support those staff who interact with the public in Wales and who wish to learn Welsh. This will be done in the context of their overall goals and objectives and those of the organisation.

## Recruitment

5.5 The GPhC will identify if there are any posts where the ability to speak Welsh is essential or desirable to ascertain what level of Welsh is required. Job descriptions will be formulated accordingly.

5.6 Recruitment notices will appear bilingually in English language publications principally circulating in Wales and in Welsh in Welsh language publications.

5.7 Recruitment notices for posts where fluency in Welsh is considered to be desirable or essential will also appear bilingually on the GPhC website recruitment section.

5.8 The GPhC will conduct an audit to establish how many of its current staff and Council Members speak or are learning Welsh, and their level of proficiency.

## Third Party Contractors

5.9 All third parties will be made aware of the GPhC's Welsh Language Scheme and their role in implementing the sections relevant to their work. Any contracts or SLAs will include specific reference to the service in Welsh that is required in the context of the scheme.

5.10 Performance against the contract will be monitored for compliance

# 5. Gweithredu a Monitro'r Cynllun

## Gweithwyr a'u cyfrifoldeb

5.1 Gyda'r Prif Weithredydd a Chofrestrydd y mae'r cyfrifoldeb dros ddarpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg yn y pendraw. Bydd y Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu yn goruchwylio gweithredu'r Cynllun ar sail dydd i ddydd.

5.2 Bydd Pennaeth Adnoddau Dynol yn sicrhau bod y rheiny sydd ynghlwm wrth recriwtio a hyfforddi yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun. Bydd Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys fel rhan o hyfforddi anwytho staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd.

5.3 Bydd pob rheolwraig/wr yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu yn ei h/adran berthnasol. Cefnogir hyn gan canllawiau i staff 'fydd yn cael eu hysgrifennu'n unol â'r cynllun hwn.

## Dysgu Cymraeg

5.4 Bydd y CFfC yn annog a chefnogi aelodau staff yng Nghymru sy'n rhyngweithio gyda'r cyhoedd ac sydd am ddysgu'r Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei wneud yng nghyd-destun eu nodau ac amcanion cyffredinol a rhai'r sefydliad.

## Recriwtio

5.5 Bydd CFfC yn archwilio a oes unrhyw swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol er mwyn darganfod pa safon o Gymraeg sydd ei hangen. Bydd disgrifiadau swydd yn cael eu geirio i gyfateb.

5.6 Bydd hysbysiadau recriwtio yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith sy'n cylchredeg yn bennaf yng Nghymru ac yn y Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

5.7 Bydd hysbysiadau recriwtio ar gyfer swyddi yr ystyrir bod yn rhugl yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol iddynt hefyd yn ymddangos yn ddwyieithog yn adran recriwtio gwefan y CFfC.

5.8 Bydd y CFfC yn cynnal archwiliad i ddarganfod sawl aelod o'i staff presennol ac Aelodau Cyngor sy'n siarad Cymraeg neu'n ei dysgu, a'u lefel hyfedredd.

## Contractwyr Trydydd Parti

5.9 Bydd CFfC yn gwneud pob trydydd parti yn ymwybodol o Gynllun yr Iaith Gymraeg a'u swyddogaeth wrth weithredu'r adrannau hynny sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd unrhyw gontractau neu CLG yn cynnwys cyfeiriad penodol at y gwasanaethau Cymraeg y bydd eu hangen yng nghyd-destun y cynllun.

5.10 Bydd perfformiad y contract yn cael ei fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun.

## Monitoring the scheme

5.11 The GPhC is committed to monitoring the implementation of this scheme and improving its implementation.

5.12 The GPhC will:

- prepare internal progress reports regarding the implementation of the scheme annually.

5.13 The Council will receive an annual compliance report that will:

- Measure whether the GPhC is complying with the scheme
- Measure if the Scheme is being appropriately managed
- Analyse its performance on a departmental and corporate basis, in order to ensure consistency
- Assess and consider key themes in scheme implementation and
- Recognise any fundamental weaknesses and set up an action plan which will include a timetable to deal with them

5.14 A copy of this report will be sent to the Welsh Language Board on an annual basis.

5.15 In the third year of the Scheme's implementation the GPhC will prepare a comprehensive evaluation report that will assess and evaluate performance in implementing the scheme since its inception. At this time the GPhC will revise and update its Welsh Language Scheme.

## Improving the Scheme

5.16 The GPhC welcomes the views of others on ways to improve the scheme. All comments or suggestions should be addressed to **communications@pharmacyregulation.org**

5.17 All complaints regarding the implementation of the scheme will be investigated and action taken will be highlighted in the annual monitoring report to the Welsh Language Board. Complaints received in Welsh and English will be dealt with in the same timescale.

## Monitro'r Cynllun

5.11 Mae'r CFfC wedi ymrwymo at fonitro gweithrediad y cynllun hwn a gwella ei weithrediad. Mae'n croesawu barn pobl eraill ar ffyrdd i wella'r cynllun.

5.12 Bydd y CFfC yn:

- paratoi adroddiadau cynnydd mewnol blynyddol ynghylch gweithrediad y cynllun

5.13 Bydd y Cyngor yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol fydd yn:

- Mesur a yw'r CFfC yn cydymffurfio â'r cynllun
- Mesur a yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n addas
- Dadansoddi ei berfformiad ar sail adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb
- Asesu ac ystyried agweddau pwysig ar weithrediad y cynllun a
- Thynnu sylw at unrhyw wendidau sylfaenol a sefydlu cynllun gweithredu, yn cynnwys amserlen, i fynd i'r afael â nhw

5.14 Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn flynyddol.

5.15 Yn nhrydedd blwyddyn gweithrediad y Cynllun, bydd y CFfC yn paratoi adroddiad gwerthuso trwyadl fydd yn asesu a gwerthuso perfformiad gweithredu'r cynllun ers ei gychwyn. Yn ystod y cyfnod hwn bydd y CFfC yn adolygu a diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg.

## Gwella'r Cynllun

5.16 Mae'r CFfC yn croesawu barn pobl eraill ar ffyrdd i wella'r cynllun. Dylid anfon sylwadau neu argymhellion i **communications@pharmacyregulation.org**

5.17 Ymchwilir i bob cwyn a dderbynnir ynghylch gweithredu'r cynllun a disgrifir unrhyw gamau a wnaed yn ymateb i'r gwyn yn yr adroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Delir gyda chwynion a dderbynnir yn y Gymraeg ac yn Saesneg o fewn yr un faint o amser

## 6. Publicising of the scheme

6.1 The GPhC will publicise its Welsh Language Scheme to the public and other stakeholders in the following website by:

- posting it on the GPhC website
- writing to all relevant stakeholders, including local health boards, patient associations and the Welsh Assembly Government.
- issuing a press release (bilingual)

6.2 The GPhC will make sure that all staff are informed about the Welsh Language Scheme. Training will be provided to all staff. Information will be made available to new staff at their induction.

# 6. Hysbysebu'r Cynllun

6.1 Bydd y CFfC yn hysbysu'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill drwy:

- ei roi ar wefan y CFfC
- ysgrifennu at randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys byrddau iechyd lleol, cymdeithasau cleifion a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- rhyddhau datganiad i'r wasg (yn ddwyieithog)

6.2 Bydd y CFfC yn sicrhau fod pob aelod o staff yn cael gwybod am Gynllun yr Iaith Gymraeg. Darperir hyfforddiant i'r holl staff. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi i bob aelod newydd o staff wrth eu hanwytho.

## Implementation plan

| | Target | Timetable |
|---|---|---|
| 1 | Appoint and establish the role of the scheme coordinator | Immediate |
| 2 | HR to include language awareness within the new staff induction sessions | Immediate |
| 3 | Reference to WLS in future annual reports | Immediate |
| 4 | Monitor implementation of the scheme and produce internal progress reports annually | Immediate |
| 5 | Provide briefing to Council members on the requirements of the WLS and the consultation | Within 1 month |
| 6 | Prepare written guidance for staff on how to deal with bilingual communication for and to the public in Wales | Ongoing and within 3 months |
| 7 | Prepare written checklist for staff implementation of WLS | Ongoing and within 3 months |
| 8 | Ensure impact assessment procedures reflect requirements of WL scheme | Within 3 months |
| 9 | HR to conduct audit to establish how many of current staff and council members possess Welsh language skills | Within 4 months |
| 10 | Circulate contact details for translation services to the organisation | Within 4 months |
| 11 | Ensure new policies, new procedures, press releases and new publications aimed at the public in Wales are produced bilingually | Immediate |
| 12 | Ensure Fitness to Practise hearings cater for Welsh speaking witnesses | Within 6 months |
| 13 | HR to audit posts within the organisation to establish if Welsh language skills are essential or desirable | Within 6 months<br>Re audit annually |
| 14 | Where identified posts that become available, advertisement will include the desirability of bilingualism | Within 6- 8 months |
| 15 | IT to ensure web design incorporates the WLS | Ongoing and within 3 months |

| | Target | Timetable |
|---|---|---|
| 16 | Send Annual report to Welsh Language Board | After 1 year |
| 17 | Revise and update the implementation plan with agreement of WLB | After 1 year |
| 18 | Prepare comprehensive evaluation report for the Welsh Language Board | After 3 years |

## Cynllun Gweithredu

| | Targed | Amserlen |
|---|---|---|
| 1 | Apwyntio a sefydlu swyddogaeth cydlynydd y cynllun | Yn syth |
| 2 | AD i gynnwys ymwybyddiaeth iaith yn sesiynau anwytho staff newydd | Yn syth |
| 3 | Cyfeirio at Gynllun yr Iaith Gymraeg yn adroddiadau blynyddol y dyfodol | Yn syth |
| 4 | Monitro gweithrediad y cynllun a chynhyrchu adroddiadau cynnydd mewnol blynyddol | Yn syth |
| 5 | Darparu briff i aelodau'r Cyngor ar anghenion y Cynllun a'r ymgynghoriad | O fewn 1 mis |
| 6 | Paratoi canllawiau ysgrifenedig i staff ar sut i ddelio gyda chyfathrebu dwyieithog ar gyfer ac i'r cyhoedd yng Nghymru | Cyfredol ac o fewn 3 mis |
| 7 | Paratoi rhestr wirio ar gyfer gweithredu'r Cynllun gan y staff | Cyfredol ac o fewn 3 mis |
| 8 | Sicrhau bod gweithdrefnau asesu effaith yn adlewyrchu anghenion Cynllun yr Iaith Gymraeg | O fewn 4 mis |
| 9 | AD i gynnal archwiliad i ddarganfod sawl aelod o'r staff presennol sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg | O fewn 4 mis |
| 10 | Cylchredeg manylion cyswllt gwasanaethau cyfieithu o fewn y sefydliad | O fewn 4 mis |
| 11 | Sicrhau bod polisïau newydd a gweithdrefnau newydd, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau newydd sydd wedi eu hanelu at y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog | Yn syth |
| 12 | Sicrhau bod achosion Addasrwydd i Ymarfer yn darparu ar gyfer tystion Cymraeg eu hiaith | |
| 13 | AD i gynnal archwiliad o swyddi o fewn y sefydliad i bennu a yw sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn angenrheidiol neu'n ddymunol | O fewn 6 mis, Ailarchwilio'n flynyddol |
| 14 | Pan bennir bod dwyieithrwydd yn ddymunol, hysbysebu hynny pan fo swyddi ar gael i'w llenwi | O fewn 6-8 mis |
| 15 | GT i sicrhau bod Cynllun yr Iaith Gymraeg yn cael ei ymgorffori yn nyluniad y we | Cyfredol ac o fewn 3 mis |

| | Targed | Amserlen |
|---|---|---|
| 16 | Anfon adroddiad blynyddol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg | |
| 17 | Adolygu a diweddaru'r cynllun gweithredu mewn cytundeb a Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Ar ôl 1 flwyddyn |
| 18 | Paratoi adroddiad gwerthuso trwyadl ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg | Ar ôl 3 mlynedd |

General Pharmaceutical Council
25 Canada Square, London E14 5LQ
www.pharmacyregulation.org

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, London E14 5LQ
www.pharmacyregulation.org